**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

20 Mehefin 2024

**Ynghylch: Y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)**

Annwyl Russell,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20 Mai yn gwahodd aelodau o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i ymuno â sesiynau tystiolaeth perthnasol y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru). Yn anffodus, mae ymrwymiadau yn ein blaenraglen waith yn golygu na fydd hynny'n bosibl.

Fel y gwyddoch, rydym yn parhau i fod â diddordeb mawr yn y system ofal a'r gwasanaethau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Mae llawer o gynnwys y Bil yn uniongyrchol berthnasol i'r gwaith helaeth a wnaethom fel rhan o'n hymchwiliad i ddiwygio radical ar gyfer plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, ein hymchwiliad presennol i blant a phobl ifanc sydd ar yr ymylon, a meysydd gwaith cysylltiedig eraill y bu'r Pwyllgor yn eu trafod yn ystod y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf.

Gyda hynny mewn golwg, rydym yn bwriadu ysgrifennu atoch ym mis Gorffennaf i nodi ein barn am gynnwys y Bil, yn seiliedig ar y dystiolaeth yr ydym eisoes wedi'i chasglu. Rydym yn gobeithio y bydd y dystiolaeth ysgrifenedig hon yn ddefnyddiol wrth ichi ddod i'ch casgliadau am y Bil fel rhan o'r broses graffu yn ystod Cyfnod 1.

Yn gywir,

Buffy Williams AS
Cadeirydd

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.